



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------

1 Samuel 22: 1-2, 23:1 - 24:22




- 1 Roedd y Brenin Saul eisiau lladd Dafydd. Felly dyma Dafydd yn mynd i Ogorf Adwlam i guddio. Pan glywodd ei frodyr a'i deulu ei fod yno dyma nhw'n mynd ato. Roedd pawb oedd mewn helynt yn ymuno gydag e hefyd. Roedd tua 400 ohonyn nhw i gyd, a Dafydd yn eu harwain nhw.



- 2 Clywodd Dafydd fod y Philistiaid wedi ymosod ar Ceila, ac yn dwyn ýd o'r lloriau dyrnu. A dyma fe'n gofyn am arweiniad yr ARGLWYDD, "Ddylwn i fynd i ymosod ar y Philistiaid yma?"



- 3 A dyma'r ARGLWYDD yn ateb, "Ie, dos. Ymosod ar y Philistiaid ac achub Ceila."



-
- 4 Clywodd Saul fod Dafydd wedi dod i Ceila, a dwedodd, "Mae Duw wedi ei roi e yn fy nwylo i! Mae e wedi cau ei hun mewn trap drwy fynd i dref sydd â giatiauw dwbl a barrau i'w cloi." Clywodd Dafydd fod Saul yn cynllunio i ymosod arno. Yna dyma fe'n gweddio: "O ARGLWYDD, Duw Israel, fydd awdurdodau'r dre yn fy rhoi yn ei ddwylo? Ydy Saul wir yn dod i lawr, fel dw i wedi clywed?"



-
- 5 A dyma'r ARGLWYDD yn dweud, "Ydy, mae e yn dod." A dyma Dafydd yn gofyn, "Fydd awdurdodau Ceila yn fy rhoi i a'm dynion i Saul?" A dyma'r ARGLWYDD yn ateb, "Byddan." Felly dyma Dafydd a'i ddyinion yn gadael Ceila ar unwaith.



-
- 6 Bu Dafydd yn cuddio mewn lleoedd saff yn yr anialwch. Roedd Saul yn chwilio amdano trwy'r amser. Pan oedd Dafydd yn Horesh yn anialwch Siff, roedd ganddo ofn am fod Saul wedi dod yno i geisio ei ladd e. Dyma Jonathan, mab Saul, yn mynd draw i Horesh at Dafydd. Dwedodd wrtho, "Paid bod ag ofn! Fydd fy nhad Saul ddim yn dod o hyd i ti. Ti fydd brenin Israel a bydda i'n ddirprwy i ti." Ar ôl i'r ddau ymrwymo o flaen yr ARGLWYDD i fod yn ffyddlon i'w gilydd, dyma Dafydd yn aros yn Horesh ac aeth Jonathan adre.



-
- 7 Aeth rhai o bobl Siff at Saul i Gibeah a dweud wrtho fod Dafydd yn cuddio wrth Horesh, ar Fryn Hachila. Dwedodd Saul wrthyn nhw i ffeindio allan lle'n union roedd Dafydd yn cuddio, ac wedyn i ddod yn ôl ato gyda'r wybodaeth.



- 8 Felly dyma nhw'n mynd yn ôl i Siff, o flaen Saul. Roedd Dafydd a'i ddynion yn anialwch Maon. A dyma Saul a'i ddynion yn mynd i chwilio amdano. Ond dyma Dafydd yn cael gwybod, ac aeth i lawr i le o'r enw Y Graig, ac aros yno yn anialwch Maon. Clywodd Saul am hyn ac aeth ar ôl Dafydd i anialwch Maon. Roedd Saul un ochr i'r mynydd pan oedd Dafydd a'i ddynion yr ochr arall.



- 9 Roedd Saul a'i filwyr ar fin amgylchynu Dafydd a'i ddynion a'i dal nhw. Ond daeth neges yn dweud wrth Saul am frysio'n ôl adre am fod y Philistiaid wedi ymosod ar y wlad. Felly roedd rhaid i Saul stopio mynd ar ôl Dafydd a mynd i ymladd yn erbyn y Philistiaid.



- 10 Yna aeth Dafydd i aros mewn lle saff yn En-gedi. Pan ddaeth Saul yn ôl ar ôl bod yn ymladd yn erbyn y Philistiaid dyma nhw'n dweud wrtho fod Dafydd yn anialwch En-gedi. Dewisodd Saul dair mil o filwyr gorau Israel, a mynd i chwilio am Dafydd.



-
- 11 Roedd Saul eisiau mynd i'r tŷ bach, felly aeth i mewn i ogof. Roedd Dafydd a'i ddynion yn cuddio ym mhen draw'r ogof ar y pryd.



-
- 12 Dyma'r dynion yn dweud wrth Dafydd, "Dyma ti'r diwrnod y dwedodd yr ARGLWYDD wrthot ti amdano, 'Bydda i'n rhoi dy elyn yn dy afael, a chei wneud fel y mynni gydag e.'" A dyma Dafydd a mynd draw yn ddistaw bach, a thorri cornel mantell Saul i ffwrdd.



-
- 13 Meddai wrth ei ddynion, "Ddylwn i ddim bod wedi gwneud y fath beth. Sut allwn i wneud dim yn erbyn fy meistr? Fe ydy'r brenin wedi ei eneinio gan yr ARGLWYDD." A dyma Dafydd yn rhwystro ei ddynion rhag ymosod ar Saul.



-
- 14 Felly dyma Saul yn mynd allan o'r ogof ac ymlaen ar ei ffordd. Yna dyma Dafydd yn gweiddi ar ei ôl, "Fy mrenin!" Trodd Saul rownd i edrych, a dyma Dafydd yn ymgrymu iddo â'i wyneb ar lawr. A dyma Dafydd yn dweud, "Rwy't ti wedi gweld drosot dy hun heddiw fod Duw wedi dy roi di yn fy ngafael i pan oeddet ti yn yr ogof. Roedd rhai yn annog fi i dy ladd di, ond wnes i ddim codi llaw yn erbyn fy meistr. Ti ydy'r un mae'r ARGLWYDD wedi ei eneinio'n frenin! Edrych — dyma gornel dy fantell di yn fy llaw i. Gwnes i dorri cornel dy fantell di, ond wnes i ddim dy ladd di. Dw i eisiau i ti ddeall nad ydw i'n gwrthryfela, nac yn bwriadu dim drwg i ti. Caiff yr ARGLWYDD farnu rhyngon ni'n dau. Caiff e ddial arnat ti, ond wna i ddim dy gyffwrdd di."



-
- 15 Dyma Saul yn ei ateb, "Ai ti sydd yna go iawn, Dafydd, machgen i?" A dyma fe'n dechrau crio'n uchel a dweud, "Ti'n well dyn na fi. Ti wedi bod yn dda ata i er fy mod i wedi ceisio gwneud drwg i ti. Ti wedi dangos hynny heddiw drwy fod yn garedig ata i. Roedd yr ARGLWYDD wedi rhoi'r cyfle i ti fy lladd i, ond wnest ti ddim."



-
- 16 Dwedodd Saul wrth Dafydd ei fod yn gwybod yn iawn mai Dafydd fyddai'r brenin nesa'. Addawodd Dafydd na fyddai'n lladd teulu Saul i gyd. Ar ôl i Dafydd addo hynny ar lw i Saul, dyma Saul yn mynd adre, a dyma Dafydd a'i ddynion yn mynd yn ôl i fyny i'w guddfan yn Engedi.



-
- 17 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
